THE INSOLVENCY SERVICE
www.insolvency.gov.uk

Canllaw i GREDYDWYR

Pryd?
Ble?
Sut?
Beth?
Pwy

Awarded for excellence

INVESTOR IN PEOPLE

dti

Cynnwys

Tudalen

1 Y canllaw hwn 4
Beth yw'r Gwasanaeth Ansolfedd? 4
Beth yw ansolfedd? 4
Beth yw'r gweithdrefnau ansolfedd? 4
Pwy sy'n delio â'r gweithdrefnau ansolfedd? 5

2 Derbynyddion swyddogol (DSau) ac ymarferwyr ansolfedd (YAau) 5
Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud? 5
Sut a phryd i gysylltu â DSau ac YAau 5

3 Methdaliad a datodiad gorfodol 7
Y weithdrefn 7
Cyfyngiadau ar fethdalwr neu gyfarwyddwr cwmni 7
Eich rôl fel credydwr: 8
Pryd fydda i'n cael fy hysbysu? 8
Sut ydw i'n hawlio? 8
Cyfarfod credydwyr 9
Cynnal a phleidleisio mewn cyfarfod credydwyr 9
Pwyllgor credydwyr/datodiad 10
Cydnabyddiaeth yr ymddiriedolwr/y datodwr 10
Cwblhau'r achos 10
Pa gamau cyfreithiol alla' i eu cymryd yn erbyn y methdalwr/ y cwmni neu'r ymddiriedolwr/y datodwr 10

4 Tabl cyfeirio 11
Derbynyddiad gweinyddol
Gweinyddiaeth
Trefniant gwirfoddol cwmni/unigolyn
Datodiad gwirfoddol credydwyr
Datodiad gwirfoddol aelodau

5 Ble i fynd am ragor o wybodaeth 12
Tŷ'r Cwmnïau 12
Cofrestr Unigolion Ansolfent 12
Gwybodaeth ar adennill dyledion 13
Copïau ychwanegol o'r canllaw hwn 13

6 Termau Ansolfedd: Beth yw eu hystyr? 14-18

1. Y Canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gweithdrefnau os oes arian yn ddyledus i chi gan unigolyn neu gwmni mewn datodiad gorfodol (lle cafodd gorchymyn dirwyn i ben ei wneud gan y llys). Mae'r canllaw wedi ei ysgrifennu'n bennaf ar gyfer busnesau bach a chredydwyr unigol, ac i'r rhai sydd heb warant am yr arian sy'n ddyledus iddynt. Mae'r canllaw'n trafod gweithdrefnau yng Nghymru a Lloegr. Cewch wybodaeth ar sut i gychwyn gweithdrefnau ansolfedd yn ein cyhoeddiadau *'Dealing with Debt'*.

Beth yw'r Gwasanaeth Ansolfedd?

Mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn Asiantaeth Weithredol o fewn yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI). Mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn gweinyddu ac yn ymchwilio i faterion methdalwyr a chwmnïau mewn datodiad gorfodol, mae'n sefydlu'r rhesymau dros yr ansolfedd ac yn adrodd ar dystiolaeth o gamymddwyn. Mae'r derbynnydd swyddogol hefyd yn gweithredu fel ymddiriedolwr mewn methdaliad ac fel datodwr i gwmnïau mewn datodiaeth orfodol, mae'n delio gyda hawliau gan gredydwyr a gyda dosbarthu cronfeydd.

Nid yw'r Gwasanaeth Ansolfedd yn ymwneud â'r trafod o ddydd i ddydd gyda derbynyddiadau gweinyddol, datodiadau gwirfoddol a threfniadau gwirfoddol. Fodd bynnag, ers 1 Ebrill 2004, gall y derbynnydd swyddogol fod yn arolygydd mewn trefniant gwirfoddol llwybr carlam newydd.

Beth yw ansolfedd?

Y diffiniad o ansolfedd a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yw anallu unigolyn neu gwmni i dalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r term ansolfedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r gweithdrefnau ffurfiol amrywiol all fod yn berthnasol i unigolyn neu i gwmni. Y Ddeddf Seneddol y mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweinyddu drwyddo yw'r Ddeddf Ansolfedd 1986. Mae cyfraith ansolfedd yn darparu system o ddelio'n deg gydag asedau'r methdalwr a gyda hawliadau credydwyr. Mae'r gyfraith hefyd yn delio â beth sy'n digwydd i'r unigolyn neu'r cwmni yn dilyn ansolfedd.

Beth yw'r gweithdrefnau ansolfedd?

Y gweithdrefnau all fod yn gymwys i unigolion yw:

- methdaliad
- trefniant gwirfoddol unigol
- trefniadau gwirfoddol llwybr carlam

Y gweithdrefnau all fod yn gymwys i gwmnïau yw:

- datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys)
- derbynyddiad gweinyddol
- gweinyddiaeth
- trefniant gwirfoddol i gwmni
- datodiad gwirfoddol i gredydwyr
- datodiad gwirfoddol i aelodau (yn gymwys i gwmnïau diddyled yn unig ond yn cael ei reolaethu gan Ddeddf Ansolfedd 1986).

Y gweithdrefnau all fod yn gymwys i gwmnïau yw:

- methdaliad aelodau unigol
- trefniadau gwirfoddol unigol (gydag aelodau unigol)
- datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys)
- gweinyddiaeth
- trefniant gwirfoddol i gwmni

Pwy sy'n delio â'r gweithdrefnau ansolfedd?

Derbynnydd swyddogol (DS) fydd fel arfer yn trafod camau cynnar methdaliad neu ddatodiad gorfodol. Os oes asedau arwyddocaol, gall ymarferydd ansolfedd (YA) gael ei benodi'n ymddiriedolwr/ datodwr yn lle'r DS. Mae'r holl weithdrefnau ansolfedd eraill, ar wahân i drefniadau gwirfoddol llwybr carlam yn cael eu trafod gan YAau.

2. Derbynyddion swyddogol (DSau) ac ymarferwyr ansolfedd (YAau)

Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud?

Gweision sifil yn y Gwasanaeth Ansolfedd yw DSau a swyddogion y llys y maen nhw'n gysylltiedig ag ef. Yn ogystal â gweinyddu achosion, mae gan DSau ddyletswydd i ymchwilio materion unigolion sy'n fethdalwyr a chwmnïau mewn datodiad gorfodol. Maen nhw'n adrodd am dystiolaeth o droseddau i asiantaeth erlyn. Maen nhw'n adrodd am ymddygiad anaddas i'r Ysgrifennydd Gwladol, fydd yn penderfynu a ddylid cychwyn achos llys i ddiarddel cyfarwyddwr.

Mae YAau yn gweithio yn y sector preifat. Cyfrifyddion neu gyfreithwyr ydyn nhw fel arfer. Mae gofyniad cyfreithiol (dan Ddeddf Ansolfedd 1986) iddynt gael eu hawdurdodi i weithredu fel YAau.

Un o'r cyrff proffesiynol cydnabyddedig (CPCau) sy'n eu hawdurdodi, er bod nifer fechan o bobl yn cael eu hawdurdodi'n uniongyrchol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Mae CPCau wedi eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodi eu haelodau. Mae tua 90% o YAau yn cael eu hawdurdodi gan CPCau. Mae gan YAau sy'n gweithredu fel datodwyr mewn datodiadau gwirfoddol i gredydwyr, derbynyddion gweinyddol a gweinyddwyr ddyletswydd i adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw dystiolaeth o ymddygiad anaddas gan gyfarwyddwyr cwmnïau.

Sut a phryd i gysylltu â DSau ac YAau

Sut ydw i'n cael gwybod pwy sy'n delio gydag achos?

Dylai'r DS/YA gysylltu â chi'n awtomatig os yw'n gwybod eich bod yn gredydwr. Am fanylion pellach, gweler adrannau 3 a 5.

Os ydych chi'n credu y gall unigolyn neu gwmni fod yn destun gweithrediadau ansolfedd a'ch bod heb glywed gan DS/YA - gallech gymryd un neu ragor o'r camau canlynol:

- os mai ansolfedd cwmni sydd dan sylw, cysylltwch â Thŷ'r Cwmnïau. Mae modd chwilio ar gael ar eu gwefan, www.companieshouse.gov.uk
- os mai methdaliad sydd dan sylw, chwiliwch y Gofrestr Ansolfedd Unigol ar ein gwefan, www.insolvency.gov.uk
- os mai methdaliad, neu ddatodiad gorfodol sydd dan sylw, cysylltwch â'r swyddfa YA agosaf at fusnes y methdalwr. Dylech roi enw llawn y methdalwr neu'r cwmni. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Methdaliad ar 0845 602 9848 neu drwy e-bost: insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk

- os mai partneriaeth sydd dan sylw, mae'n bosibl bod gorchmynion methdaliad wedi eu gwneud yn erbyn partneriaid unigol, a gallwch gael manylion oddi ar y Gofrestr Ansolfedd Unigol
- edrychwch yn yr adran hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd.

Sut ydw i'n gwneud fy hun yn hysbys fel credydwr?

Dylech ysgrifennu at y DS/YA sy'n delio â'r ansolfedd. Dylech roi enw llawn yr unigolyn neu'r cwmni yn ogystal â'ch manylion eich hun. Dylech hysbysu'r DS/YA os byddwch yn newid eich cyfeiriad.

Ddylwn i gysylltu â'r DS/YA os oes gen i unrhyw wybodaeth am yr unigolyn neu'r cwmni?

Dylech ysgrifennu ar y DS/YA os oes gennych unrhyw wybodaeth am asedau'r unigolyn neu'r cwmni neu am ymddygiad yr unigolyn neu gyfarwyddwyr cwmni. Gall yr wybodaeth hon helpu'r DS/YA i adfer asedau neu yn ei d/ddyletswydd i adrodd am gamymddwyn.

Nid yw'r DS/YA yn darparu gwybodaeth gyson i mi. Beth ddylwn i ei wneud?

Peidiwch â disgwyl adroddiadau mynych gan y DS/YA. Unwaith y bydd eich hawliad wedi ei gyflwyno o'r DS/YA, byddwch yn derbyn adroddiad i gredydwyr sy'n rhoi gwybodaeth i chi am asedau a rhwymedigaethau'r unigolyn neu'r cwmni ac amgylchiadau'r ansolfedd. Byddwch yn cael eich hysbysu'n awtomatig am unrhyw ddosbarthu arian neu fod dim arian ar gael a bod yr achos am gael ei gau. Gall gymryd wythnosau, misoedd neu flynyddoedd (mewn rhai achosion cymhleth) i wireddu asedau. Os ydych yn pryderu, cysylltwch â'r DS/YA sy'n trafod yr achos. Cofiwch hysbysu'r DS/YA os byddwch yn newid eich cyfeiriad.

Rydw i eisiau cwyno am y ffordd mae fy achos yn cael ei drafod. Beth ddylwn i ei wneud?

Os mai'r YA sy'n delio a'r ansolfedd:

- Efallai y byddwch yn gallu datrys y gwyn drwy ei drafod ar unwaith gyda'r swyddog sy'n delio â'r achos neu gyda rheolwr y swyddog hwnnw/honno.
- Os na fydd hynny'n bosibl, gallwch ysgrifennu at y derbynnydd swyddogol lleol. Fel arall, gallwch ffonio, er efallai y bydd gofyn i chi ddarparu manylion eich cwyn yn ysgrifenedig.
- Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb i'ch cwyn, dylech ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Rhanbarthol sy'n gyfrifol am y derbynnydd swyddogol. Bydd y derbynnydd swyddogol yn rhoi manylion ei Gyfarwyddwr Rhanbarthol i chi.
- Os nad oes modd datrys materion o hyd, gallwch wedyn fynd â'ch cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr - The Adjudicator's Office, Haymarket House, 28 Haymarket, London SW1Y 4SP

Os mai YA sy'n delio â'r ansolfedd:

- Dylech gysylltu â chorff awdurdodi'r YA i gwyno am ymddygiad amhroffesiynol. Dylai unrhyw ymarferydd ansolfedd roi manylion ei g/chorff awdurdodi i chi ar eich cais.
  Fel arall, gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon:

- Ar ein cronfa ddata chwiliadwy o ymarferwyr ansolfedd ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd www.insolvency.gov.uk.
- Drwy gysylltu â Llinell Ymholiadau Ansolfedd ar 0845 602 9848, neu drwy e-bostio: insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk
- Drwy ysgrifennu at yr Insolvency Practitioner Policy Section, The Insolvency Service, PO Box 203, 21 Bloomsbury Street, London WC1B 3QW, fydd hefyd yn anfon cwynion ymlaen at y corff awdurdodu priodol.

Mae rhagor o wybodaeth am drefn gwynion y Gwasanaeth Ansolfedd yn ein cyhoeddiad 'Complaints Procedure' a *'How to make a complaint against an insolvency practitioner'*.

3. Methdaliad a datodiad gorfodol (dirwyn i ben gan y llys)

Methdaliad - y drefn

Dim ond unigolion sy'n gallu bod yn fethdalwyr (yn cynnwys unig fasnachwyr ac aelodau unigol partneriaethau). Gellir cyflwyno deisebau methdalu i'r llys gan yr unigolyn, gan gredydwyr y mae £750 neu fwy'n ddyledus iddynt, neu gan arolygydd trefniant unigol gwirfoddol, os nad yw'r unigolyn wedi cydymffurfio â thelerau'r cytundeb. Llys sy'n gwneud rhybudd methdaliad.

Mae'r DS fel arfer yn gweithredu fel derbynnydd a rheolwr ystâd y methdalwr a bydd yn dod yn ymddiriedolwr oni bai bod YA yn cael ei benodi. Bydd yr ymddiriedolwr yn gwireddu unrhyw asedau (ar wahân i rai asedau, yn cynnwys eitemau sylfaenol y cartref y mae eu hangen ar y methdalwr a'i d/theulu, ac eitemau megis cerbydau, offer, arfau a llyfrau y mae eu hangen ar gyfer gwaith y methdalwr). Ar ôl talu ffioedd a chostau'r achos, bydd y methdalwr yn dosbarthu gweddill yr arian i'r credydwyr yn nhrefn blaenoriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar weithdrefnau methdaliad yn ein cyhoeddiadau *'Dealing with Debt'*.

Datodiad gorfodol - y drefn

Datodiad gorfodol yw dirwyn cwmni neu bartneriaeth i ben drwy orchymyn llys (gorchymyn dirwyn i ben). Caiff deiseb ei gyflwyno i'r llys fel arfer gan gredydwr yn nodi bod swm o arian yn ddyledus iddo/i gan y cwmni ac nad yw'r cwmni yn gallu ei dalu. Daw'r DS yn ddatodwr wrth i'r gorchymyn cael ei wneud ond penodir YA i gymryd drosodd gan y DS os oes gan y cwmni asedau arwyddocaol. Rôl y datodwr yw gwireddu asedau'r cwmni, talu'r holl ffioedd a thaliadau yn codi o'r datodiad, a thalu'r credydwyr i'r graddau y mae'r cronfeydd yn eu caniatáu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar ddatodiad gorfodol yn ein cyhoeddiadau *'Dealing with Debt'*.

Cyfyngiadau ar fethdalwr neu gyfarwyddwr cwmni

Gall methdalwr heb ei ryddhau fasnachu ar ôl y rhybudd methdaliad ond mae cyfyngiadau ar hynny. Os bydd methdalwr heb ei ryddhau'n masnachu dan enw newydd, neu arddull masnachu newydd, rhaid iddo/i ddatgelu'r hen enw (yr enw y cafodd y rhybudd methdaliad ei roi iddo) i unrhyw un y mae ef/hi'n gwneud busnes â nhw. Nid oes gan fethdalwr heb ei ryddhau hawl i weithredu fel cyfarwyddwr cwmni neu fod yn rhan o'i reolaeth heb ganiatâd y llys. Dim ond swm bychan o gredyd (hyd at £500 ar hyn o bryd) y gall methdalwr heb ei ryddhau ei sicrhau heb hysbysu'r rhai y mae'n delio â nhw am y methdaliad.

Mae methdalwr fel arfer yn cael ei ryddhau'n awtomatig o gyfyngiadau methdaliad ar ôl 12 mis, neu'n gynt os yw'r DS yn ffeilio rhybudd gyda'r llys.
Gall gorchymyn llys gael ei wneud yn erbyn methdalwr (gorchymyn cyfyngiadau methdaliad) neu gall wneud ymrwymiad i'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn golygu fod y cyfyngiadau methdaliad yn dal mewn grym ar ôl rhyddhau am rhwng 2 a 15 mlynedd. Mae rhagor o wybodaeth ar orchmynion cyfyngiadau methdaliad ac ymrwymiadau cyfyngiadau methdaliad yn ein cyhoeddiad *'Bankruptcy Restrictions Orders'*.

Gall **cyfarwyddwr** cwmni sydd wedi methu dod yn gyfarwyddwr cwmni newydd oni bai ei f/bod:

- yn wrthrych gorchymyn neu ymrwymiad diarddel, neu
- wedi ei d/ddyfarnu'n fethdalwr yn bersonol, neu
- yn wrthrych gorchymyn neu ymrwymiad cyfyngiadau methdaliad.

Gall person sydd wedi'i ryddhau geisio caniatâd gan y llys i fod yn gyfarwyddwr. Fel arfer, rhoddir caniatâd i weithredu dim ond mewn un neu ragor o gwmnïau penodol. Gosodir cyfyngiadau ar gyfarwyddwr cwmni sydd wedi methu parthed defnyddio enw neu enw masnachu'r cwmni a fethodd eto (gweler ein cyhoeddiad *'Re-use of a company name after liquidation'*). Gall y llys orchymyn bod cyfarwyddwr yn gwneud cyfraniad i asedau cwmni os caiff ei brofi ei f/bod wedi bod yn rhan o fasnachu twyllodrus neu anghyfiawn yn ystod ei g/chyfnod fel cyfarwyddwr y cwmni.

Eich rôl fel credydwr

Pryd fydda i'n cael fy hysbysu?

Bydd y DS fel arfer hyn hysbysu pob credydwr y gŵyr amdanynt o fewn 12 wythnos i ddyddiad y gorchymyn llys. Bydd y DS yn dweud a fydd cyfarfod credydwyr yn cael ei gynnal ai peidio. Bydd y DS yn penderfynu trefnu cyfarfod i benodi YA os oes asedau arwyddocaol, fel arall y DS fydd yr ymddiriedolwr neu'r datodwr.

Bydd adroddiad hefyd yn cael ei anfon atoch yn rhoi amcangyfrifon o asedau a rhwymedigaethau'r methdalwr a beth yw achosion tybiedig y methiant. Os ydych chi'n meddwl fod methdalwr neu gwmni'n celu gwybodaeth am yr asedau, dylech ysgrifennu at y DS sy'n delio â'r achos.

Sut ydw i'n hawlio?

Os yw'r DS/YA wedi cysylltu â chi yna mae ganddynt eisoes nodyn am eich hawliad. Os ydych chi wedi cysylltu â'r DS/YA bydd eich manylion wedi cael eu hychwanegu i'r rhestr credydwyr.

Os yw'r DS/YA'n bwriadu cynnal cyfarfod credydwyr neu wneud taliad i gredydwyr, byddwch yn derbyn ffurflen 'prawf o ddyled'. Nid yw'r derbynnydd swyddogol yn anfon ffurflenni prawf o ddyled allan yn awtomatig. Os byddwch yn derbyn ffurflen prawf o ddyled dylech ei chwblhau a'i hanfon yn ôl at y DS/YA.

Nid yw hawliau credydwr sy'n meddu ar daliad sefydliad, neu sicrwydd, ar asedau (megis morgais) i werthu'r ased er mwyn adfer eu dyled yn cael eu heffeithio gan ansolfedd. Y deilydd taliad sefydlog (credydwr sicredig) yw'r cyntaf i gael ei dalu pan gaiff yr ased ei werthu. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei drosglwyddo i'r ymddiriedolwr/y datodwr.

Ar ôl i'r holl asedau sydd ar gael i gredydwyr ansicredig gael eu gwireddu, bydd yr ymddiriedolwr/y datodwr yn dosbarthu'r arian yn nhrefn blaenoriaeth fel a ganlyn:

1. Ffioedd a thaliadau'r datodiad/ methdaliad
2. Dyledion sy'n ddyledus i gredydwyr blaenoriaethol. Mae'r dyledion hyn wedi eu nodi yn Neddf Ansolfedd 1986 ac maen nhw'n cynnwys cyflogau dyledus yn y pedwar mis cyn dyddiad y gorchymyn ansolfedd a chyfraniadau i gynlluniau pensiwn galwedigaethol.
3. Gyda chwmnïau, unrhyw gredydwyr sy'n dal taliad arnawf dros ased, megis dyledeb.
4. Pob credydwr ansicredig.
5. Unrhyw log sy'n daladwy ar ddyledion.
6. Gyda chwmnïau, y cyfranddalwyr.

Felly fel arfer ni fydd credydwyr ansicredig yn cael eu talu nes bod ffioedd a thaliadau'r gweithdrefnau ansolfedd a hawliadau'r credydwyr sicredig a blaenoriaethol wedi cael eu talu. Lle mae cwmni sy'n cael ei ddirwyn i ben yn meddu ar asedau sy'n destun taliad arnawf, bydd rhan o'r derbyniadau net ar ôl eu gwerthu, mewn achosion priodol, yn cael ei gadw'r naill ochr i'w ddosbarthu i'r credydwyr ansicredig.

Os nad yw hi'n bosibl talu'r hawliadau'n llawn, gwneir taliadau i gredydwyr drwy ddifidend mewn cyfrannedd i werth pob hawliad.

Os yw difidend i gael ei dalu, bydd pob credydwr y mae ei g/chyfeiriad yn hysbys yn cael gwybod. Os nad ydych eisoes wedi cyflwyno prawf o ddyled, efallai mai dyma fydd eich cyfle olaf i wneud hynny. Os byddwch yn cyflwyno eich prawf o ddyled ar ôl i'r difidend gael ei gyhoeddi, gallwch golli eich hawl i gyfran o'r arian sydd ar gael ar y pryd hwnnw.

Bydd faint y cewch eich talu'n dibynnu ar faint o arian y gellir ei wireddu ac ar nifer yr hawliadau. Os mai ychydig o asedau sydd ar gael, efallai na fyddwch yn derbyn dim.

Cewch ofyn am restr lawn o gredydwyr gan y DS/YA. Mae gan y DS/YA hawl i godi ffi am y gwasanaeth hwn. Bydd y rhestr yn dangos faint sy'n ddyledus i bob credydwr. Mae gennych hawl hefyd i archwilio ffeil y llys oni bai bod llys yn cyfarwyddo fel arall. Os oes datganiad ariannol wedi cael ei gyflwyno, ni fydd y DS/YA yn anfon rhestr o gredydwyr atoch. Yn hytrach, cewch eich cyfeirio at ffeil y llys am fanylion y credydwyr a'u hawliadau.

Wrth dalu difidend, gall y DS/YA wrthod rhan neu'r cyfan o hawliad credydwr. Rhaid i'r DS/YA roi rhesymau ysgrifenedig dros wneud hynny. Os ydych yn anfodlon â'r penderfyniad ar eich hawliad, cewch wneud cais i'r llys i'r penderfyniad gael ei wrthdroi neu ei amrywio.

Cyfarfod credydwyr

Cynhelir cyfarfod cyntaf o gredydwyr er mwyn i'r credydwyr allu penodi YA fel ymddiriedolwr neu ddatodwr yn lle'r DS. Mae'n debygol mai hwn fydd unig gyfarfod y credydwyr cyn i'r cyfarfod terfynol gael ei alw. Os nad yw'r DS yn credu bod yr asedau sydd ar gael yn ddigonol i ddenu YA, bydd y DS yn anfon rhybudd i bob credydwr na fydd cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ac o ganlyniad y DS fydd yr ymddiriedolwr/y datodwr.

Rhaid i'r DS gynnal cyfarfod cyntaf os yw chwarter y credydwyr mewn gwerth yn gwneud cais am un. Os bydd y credydwyr yn gwneud cais am gyfarfod, bydd rhaid iddynt gyflwyno blaendal i'r DS am unrhyw gostau'n ymwneud â'r cyfarfod. Os na fydd y credydwyr yn dewis YA yn y cyfarfod, gall y DS wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud penodiad neu i aros fel ymddiriedolwr/ datodwr. Gall y DS hefyd wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol pan fydd angen penodi YA mewn argyfwng, er enghraifft i ddelio gyda thrafodion brys sy'n ymwneud ag asedau. Pan fydd hyn yn digwydd rhaid i'r YA hysbysu'r credydwyr am ei b/phenodiad. Gellir gwneud hyn drwy osod hysbyseb mewn papur newydd os yw'r llys yn caniatáu hynny, er enghraifft lle mae nifer fawr o gredydwyr.

Cynhelir cyfarfodydd pellach o'r credydwyr (cyfarfodydd cyffredinol) weithiau os yw'r ymddiriedolwr/y datodwr am gael gwybod beth yw dymuniadau'r credydwyr mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau ansolfedd, neu os yw 10% mewn gwerth o'r credydwyr yn gwneud cais am gyfarfod.

Lle mae YA yn ymddiriedolwr/ datodwr, bydd cyfarfod terfynol o gredydwyr yn cael ei alw (gweler manylion dan 'Cwblhau'r Achos').

Cynnal a phleidleisio mewn cyfarfod credydwyr

Fel arfer ni chewch bleidleisio mewn cyfarfod oni bai eich bod wedi anfon eich prawf o ddyled yn ôl at y DS/YA o fewn y cyfnod a nodwyd yn y rhybudd. Cewch bleidleisio yn y cyfarfod heb fod yn bresennol ond rhaid i chi hefyd fod wedi anfon ffurflen dirprwyo yn caniatáu i rywun arall bleidleisio ar eich rhan. Caiff y ffurflen ddirprwyo ei hanfon gan y DS/AY ar yr un pryd â'r rhybudd yn galw'r cyfarfod credydwyr a rhaid i chi ei dychwelyd o fewn yr amser a nodir. Rhaid i'r prawf o ddyled a'r ffurflen ddirprwyo gael eu llofnodi gan yr un person. Mae pleidleisio mewn cyfarfod credydwyr yn digwydd yn ôl gwerth, ac yn cael ei gyfrifo gyda swm hawliadau'r credydwr sy'n cael ei dderbyn gan gadeirydd y cyfarfod at bwrpas pleidleisio. Bydd y cadeirydd yn gwirio'r holl brawf dyledion a'r ffurflenni dirprwyo, ac yn cadarnhau faint sy'n cael ei dderbyn at bwrpas pleidleisio.

Yn gryno, yng nghyfarfod cyntaf y credydwyr, bydd y cadeirydd yn gwneud yn siŵr fod pawb sy'n

bresennol â'r hawl i fod yn y cyfarfod; bydd ef/hi'n esbonio pwrpas y cyfarfod, ac yn darparu manylion am asedau'r methdalwr. Bydd y cyfarfod wedyn yn pleidleisio i benodi YA yn ymddiriedolwr neu'n ddatodwr. Nid cyfle i chi holi'r methdalwr/y cyfarwyddwr (mae'n annhebygol y byddan nhw yn y cyfarfod) yw cyfarfod cyntaf y credydwyr na chyfle i drafod materion sy'n ymwneud â'r ansolfedd.

Er mwyn i YA gael ei benodi yn y cyfarfod credydwyr, rhaid bod mwyafrif mewn gwerth o'r rhai sy'n bresennol neu wedi eu cynrychioli (drwy ddirprwy) yn pleidleisio dros yr YA.

Pwyllgor credydwyr/ datodiad

Gellir penodi pwyllgor credydwyr/datodiad hefyd mewn cyfarfod credydwyr oni bai bod y derbynnydd swyddogol yn parhau fel ymddiriedolwr/ datodwr. Y pwyllgor sy'n goruchwylio ac yn helpu'r ymddiriedolwr/y datodwr ar ran y credydwyr. Mewn methdaliadau, fe'i gelwir yn bwyllgor credydwyr; mewn datodiadau, mae'n bwyllgor datodiad. Mae'r pwyllgor yn cynnwys o leiaf 3 a dim mwy na 5 o gredydwyr etholedig.

Gall credydwr unigol sydd wedi'i ethol weithredu'n bersonol neu benodi cynrychiolydd.

Mae gennych hawl i'ch enwebu eich hun neu unrhyw gredydwr arall yn aelod o bwyllgor. Cewch hefyd bleidleisio drosoch eich hun.

Os yw'r ymddiriedolwr/ datodwyr yn cynnig rhyw gamau, rhaid i bwyllgor credydwyr/datodiad eu cymeradwyo gyntaf. Mae gan bob pwyllgor wahanol bwerau ond maen nhw'n cynnwys cytuno i barhau busnes y methdalwr neu'r cwmni a dwyn neu amddiffyn achosion cyfreithiol. Rhaid i bwyllgor datodiad yn gyntaf gymeradwyo taliadau i unrhyw ddosbarth o gredydwyr (er enghraifft, credydwyr blaenoriaethol) yn llawn ac unrhyw drefniadau a wnaethpwyd gyda chredydwyr neu mewn perthynas ag asedau.

Cydnabyddiaeth yr ymddiriedolwr/ y datodwr

Mae cydnabyddiaeth (tâl) y DS fel ymddiriedolwr/datodwr wedi'i bennu dan gyfraith ansolfedd. Mae cydnabyddiaeth AY fel ymddiriedolwr/datodwr yn cael ei bennu gan y pwyllgor credydwyr/datodiad. Os nad oes pwyllgor, gellir ei bennu mewn cyfarfod credydwyr. Gellir pennu'r gydnabyddiaeth fel canran o werth yr asedau a wireddir a'u dosbarthu ar sail yr amser gaiff ei dreulio. Gall unrhyw gredydwr, gyda chefnogaeth 25% mewn gwerth o'r credydwyr ansicredig, wneud cais i'r llys am i'r gydnabyddiaeth gael ei hadolygu os ydynt yn ystyried ei bod yn rhy uchel. Os nad yw'r credydwyr yn cytuno â chydnabyddiaeth, bydd yr AY yn derbyn yr un faint ag y byddai DS yn ei dderbyn, ond gall ef/hi wneud cais i'r llys i gytuno ar swm uwch.

Cwblhau'r achos

Os yw DS yn delio â'r achos a'ch bod wedi anfon prawf o ddyled i mewn, bydd y DS yn eich hysbysu pan fydd ef/hi wedi cwblhau'r ansolfedd ac yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ryddhad. Mae hyn yn golygu fod rôl yr DS fel ymddiriedolwr/datodwr yn dod i ben. Mae gan y credydwyr hawl i wrthwynebu rhyddhau'r DS. Noder nad yw rhyddhau'r DS fel ymddiriedolwr yn berthnasol i ryddhad methdalwr, ac nid yw'n effeithio ar hynny. Yn gyffredinol, yr unig bryd y gellir atal rhyddhad yr DS yw os yw'r DS wedi methu â gwireddu asedau oedd ar gael i'w gwireddu neu ei fod wedi camddefnyddio unrhyw asedau a wireddwyd. Byddwch yn derbyn crynodeb o dderbyniadau a thaliadau'r AY fel ymddiriedolwr/ datodwr.

Os mai AY sy'n delio â'r achos, bydd hysbysiad yn cael ei anfon atoch am gyfarfod terfynol y credydwyr. Yn y cyfarfod hwn bydd yr AY yn adrodd ar y modd y mae wedi trafod yr achos a bydd yn rhoi crynodeb o'r derbyniadau a'r taliadau. Bydd y credydwyr yn rhoi ei r/rhyddhad i'r AY yn y cyfarfod hwn. Mae gan gredydwyr yr hawl i wrthod rhyddhad i'r AY.

Pa gamau cyfreithiol alla i eu cymryd yn erbyn y methdalwr/cwmni neu'r ymddiriedolwr/datodwr?

Ar ôl dyddiad y gorchymyn llys, ni all credydwyr ansicredig gymryd unrhyw gamau yn erbyn y methdalwr na'r cwmni heb gydsyniad y llys. Rhaid i chi gyflwyno eich hawliad i'r ymddiriedolwr/y datodwr. Cewch wneud cais i'r llys os ydych chi'n anfodlon â gweithredoedd y DS/AY.

4. Tabl cyfeirio

Cyflwyniad cyffredinol yw hwn i'r gweithdrefnau ansolfedd sy'n cael eu trafod gan YAau (nid DSau). Cysylltwch â'r ymgynghorydd proffesiynol neu'r YA sy'n trafod eich achos am fanylion pellach. Cyfeiriwch eich cwestiynau ar y gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth ansolfedd penodol at eich ymgynghorydd proffesiynol neu'r DS/YA sy'n trafod yr achos.

	Derbynyddiad gweinyddol	**Gweinyddiaeth**	**Trefniant gwirfoddol Cwmni (CVA) a/neu Unigolyn (IVA)**	**Datodiad gwirfoddol credydwyr**	**Datodiad gwirfoddol aelodau**
Pwrpas:	I adfer arian sy'n ddyledus i gredydwr sicredig	I achub fel busnes gweithredol cwmni neu bartneriaeth sy'n wynebu problemau ariannol; i gael gwell canlyniad i gredydwyr y cwmni yn gyfan na fyddai'n digwydd yn sgil dirwyn i ben yn syth; neu i wireddu eiddo i'r credydwyr sicredig neu flaenoriaethol.	Caniatáu i gwmni, partneriaeth neu unigolyn â phroblemau ariannol i gyrraedd cytundeb gorfodol gyda chredydwyr.	Caniatáu i gwmni sy'n fethdalwr roi ei hun mewn datodiad a dirwyn i ben faterion y cwmni heb yr angen am orchymyn llys.	Caniatáu i gwmni diddyled roi ei hun mewn datodiad a dirwyn materion y cwmni i ben (er enghraifft os nad oes neb ar ôl i redeg busnes teuluol).
Cynigiwyd/cychwynnwyd gan:	Deilydd taliad arnawf. (Mae hawliau i benodi derbynnydd gweinyddol wedi cael eu cyfyngu gan y Ddeddf Fenter 2002)	Penodi gweinyddwr drwy orchymyn llys neu lle mae deilydd taliad arnawf, y cwmni neu ei gyfarwyddwyr yn ffeilio'r rhybudd angenrheidiol mewn llys	Y cyfarwyddwyr, y partneriaid, y datodwr, y gweinyddwr, neu'r dyledwr unigol (nid credydwyr)	Y cyfranddalwyr (nid credydwyr)	Y cyfranddalwyr
Trafodwyd gan:	Derbynnydd gweinyddol	Gweinyddwr	Enwebai sy'n dod yn arolygydd	Datodwr	Datodwr
Hysbyswyd y credydwyr:	O fewn 28 diwrnod i benodi derbynnydd gweinyddol (oni bai bod y llys yn cyfarwyddo fel arall)	Cyn gynted â'i bod hi'n rhesymol ymarferol penodi gweinyddwr	Pan gyhoeddir rhybudd o gyfarfod credydwyr	O fewn 14 diwrnod i gyfarfod yr aelodau	Dim gofyniad i hysbysu credydwyr
Cyfarfod credydwyr/ hawliau pleidleisio:	Wedi'i gynnal o fewn 3 mis i'r penodiad neu gyfnod hwy os yw'r llys yn caniatáu (oni bai bod y cwmni'n mynd i ddatodiad). Er mwyn pleidleisio, mae angen rhybudd ysgrifenedig o'r hawliad	Wedi'i gynnal o fewn 10 wythnos (oni bai bod y llys yn cyfarwyddo fel arall) Er mwyn pleidleisio, mae angen rhybudd ysgrifenedig o'r hawliad. Yn hytrach na chynnal cyfarfod credydwyr, gellir cynnal y busnes drwy ohebu rhwng y gweinyddwr a'r credydwyr	Nodir yr amseru yng nghynnig yr enwebai neu gan y datodwr neu'r gweinyddwr. Er mwyn pleidleisio, mae angen rhybudd ysgrifenedig o'r hawliad	O fewn 14 diwrnod i gyfarfod yr aelodau. Er mwyn pleidleisio, mae angen rhybudd ysgrifenedig o'r hawliad	Rhaid talu'r dyledion o fewn 12 mis. Os yw'r datodwr yn ystyried na fydd y cwmni'n gallu talu ei ddyledion yn llawn o fewn 12 mis, rhaid cynnal cyfarfod credydwyr a daw'r datodiad yn ddatodiad gwirfoddol credydwyr
Pwyllgorau:	Gellir penodi pwyllgor credydwyr. Dim ond gan y derbynnydd gweinyddol y gall wneud cais am wybodaeth	Gellir penodi pwyllgor credydwyr	Ni phenodir pwyllgor	Gellir penodi pwyllgor datodiad	
Pennwyd Cydnabyddiaeth yr YA gan:	Deilydd taliad arnawf neu'r llys	Pwyllgor credydwyr, credydwyr neu'r llys	Wedi'i gytuno yn nhelerau'r trefniant	Pwyllgor datodiad, credydwyr neu'r llys	
Cynnydd/ cwblhad yr achos:	Anfonir cyfrif o dderbyniadau a thaliadau at y pwyllgor credydwyr os oes un ar ôl cwblhau	Ar ôl cymeradwyo cynigion y gweinyddwr, bydd credydwyr yn derbyn adroddiadau ar gynnydd bob 6 mis. Mae penodiad y gweinyddwr yn dod i ben ar ôl 12 mis, ond gall gael ei ymestyn gan y llys neu drwy gydsyniad y credydwyr	Bydd credydwyr yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ac o fewn 28 diwrnod ar ôl cwblhau	Cynhelir cyfarfodydd credydwyr yn flynyddol ac ar ôl cwblhau	
Camau cyfreithiol yn erbyn y cwmni/yr unigolyn:	Mae pob credydwr yn cadw'r hawl i gymryd camau cyfreithiol	Ni chaiff credydwyr gymryd camau cyfreithiol heb ganiatâd y llys	Mae'r holl gredydwyr gafodd rhybudd neu oedd â'r hawl i gael rhybudd am y cyfarfod i ystyried y cynigion wedi eu rhwymo gan benderfyniad y cyfarfod. Mewn IVA, mae'r gorchymyn dros dro'n rhwystro unrhyw gredydwr rhag cymryd camau.	Gall credydwyr ddeisebu dros ddirwyn i ben gorfodol.	

5. Ble i fynd am ragor o wybodaeth

Dim ond darparu gwybodaeth am weinyddiaeth eich achos y gall y Gwasanaeth Ansolfedd a'r derbynwyr swyddogol ei wneud. Ni allant gynnig cyngor cyfreithiol. Dylech bob amser geisio cyngor proffesiynol gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu YA. Os nad oes gennych ymgynghorydd proffesiynol gallwch gysylltu â'ch swyddfa Cyngor Ar Bopeth lleol. Gallwch gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Ansolfedd gydag ymholiadau cyffredinol ar faterion ansolfedd ar 0845 602 9848 neu e-bost: Insolvency.Enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk

I gysylltu â Thŷ'r Cwmnïau

Mae Tŷ'r Cwmnïau'n dal cofnodion am bob cwmni cyfyngedig a ymgorfforwyd yn Lloegr a Chymru yn ei bencadlys yn:

Tŷ'r Cwmnïau,
Ffordd y Goron,
Caerdydd,
CF4 3UZ

Gallwch chwilio cofnodion cwmnïau drwy gyfrwng gwefan Tŷ'r Cwmnïau ar:

www.companieshouse.gov.uk

Gallwch hefyd archwilio cofnodion cwmnïau yn ystafell chwilio Llundain ac mewn swyddfeydd dibynnol yn Birmingham, Leeds a Manceinion. Gallwch dderbyn cofnodion cwmni drwy'r post os nad ydych yn gallu ymweld ag un o'r swyddfeydd. Mae modd derbyn archebion dros y ffôn os talwch gyda cherdyn credyd (Access, Visa a MasterCard yn unig).

Am ragor o wybodaeth ffoniwch linell gymorth Tŷ'r Cwmnïau ar 0870 3333 636

Chwilio'r Gofrestr Ansolfedd Unigol

Gallwch chwilio'r gofrestr arlein, neu drwy ymweld â swyddfa'r derbynnydd swyddogol. Mae pob chwiliad yn rhad ac am ddim.

Mae ffurflen chwilio ar gael ar wefan y Gwasanaeth ar www.insolvency.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth yn ein taflen 'Individual Insolvency Register'.

Gwybodaeth ar adennill dyledion

Noder na all y Gwasanaeth Ansolfedd roi cyngor ar adennill dyledion nac ar sut i gychwyn gweithrediadau ansolfedd.

Fodd bynnag, mae'r taflenni gwybodaeth isod ar gael am drefniadau adennill dyledion:

- 'Dealing with Debt: How to petition for your own bankruptcy'
- 'Dealing with Debt: How to make someone bankrupt'
- 'Dealing with Debt: How to wind up your own company'
- 'Dealing with Debt: How to wind up a company that owes you money'
- 'Dealing with Debt: How to wind up a partnership'.

Mae canllaw ar reoli credyd i brynwyr a chyflenwyr 'Better Payment Practice' ar gael gan y Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010.

Gallwch dderbyn arweiniad ar weithdrefnau'r llys sirol, yn cynnwys gwybodaeth am y drefn mân ddyledion a gorfodi dyfarniadau gan unrhyw swyddfa llys sirol (gweler dan 'Llysoedd' yn y llyfr ffôn neu drefnu arlein ar www.hmcourts- service.gov.uk). Mae gwybodaeth i fusnesau bach am ddefnyddio'r llys sirol i adennill dyledion hefyd ar gael o swyddfeydd y llys. Efallai y gall unigolion sydd wedi archebu nwyddau a gwasanaethau gan drefnu i dalu gyda chredyd, yn cynnwys cardiau credyd, hawlio yn erbyn darparydd y credyd. Mae'r Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974 (a75) yn darparu ar gyfer hyn mewn sefyllfaoedd cyfyngedig. Gallwch gael cyngor gan y gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth.

Sut i gael rhagor o gopïau o'n cyhoeddiadau

Gallwch gael rhagor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd: www.insolvency.gov.ukGallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010. Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae'n holl gyhoeddiadau ar gael ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

6. Termau Ansolfedd

Beth maen nhw'n ei feddwl?

Mae'r adran hon yn esbonio'n gryno rhai o'r termau y byddwch yn dod ar eu traws. Arweiniad cyffredinol yn unig yw hwn: mae gan lawer o'r termau ystyr dechnegol benodol mewn rhai cyd-destunau nad ydynt, o bosibl, yn cael eu trafod yma.

Gorchymyn gweinyddu
Gorchymyn wedi'i wneud mewn llys sirol i drefnu a gweinyddu talu dyledion gan unigolyn; neu orchymyn wedi'i wneud gan lys mewn perthynas â chwmni sy'n penodi gweinyddwr i gymryd rheolaeth dros y cwmni. Gall cwmni hefyd gael ei roi mewn gweinyddiaeth os yw deilydd taliad arnawf neu gyfarwyddwyr y cwmni ei hun, yn ffeilio'r rhybudd angenrheidiol mewn llys.

Derbynnydd gweinyddol
YA a benodwyd gan ddeilydd dyledeb sydd wedi'i sicrhau gan daliad arnawf sy'n cynnwys y cyfan neu bron y cyfan o asedau'r cwmni. Tasg yr YA yw gwireddu'r asedau hynny ar ran deilydd y ddyledeb.

Derbynyddiad gweinyddol
Y broses lle mae ymarferydd ansolfedd yn cael ei benodi gan ddeilydd dyledeb (benthycwr) i wireddu asedau cwmni a thalu credydwyr blaenoriaethol a dyled deilydd y ddyledeb. Mae hawl deilydd dyledeb i benodi derbynnydd gweinyddol wedi cael ei gyfyngu gan Ddeddf Menter 2002.

Gweinyddwr
YA a benodwyd gan y llys dan orchymyn gweinyddu neu gan ddeilydd taliad arnawf neu'r cwmni neu ei gyfarwyddwyr yn ffeilio'r rhybudd angenrheidiol yn y llys.

Dirymiad
Diddymiad.

Asedau
Unrhyw beth sy'n eiddo i'r dyledwr y gellir ei ddefnyddio i dalu ei d/ddyledion.

Methdaliad
Gweithdrefnau ansolfedd personol.

Gorchymyn methdaliad
Gorchymyn gan y llys, yn seiliedig ar ddeiseb credydwr neu ddyledwr, sy'n gwneud unigolyn yn fethdalwr.

Deiseb methdaliad
Cais a wneir (gan y dyledwr neu gan gredydwr) i'r llys i'r dyledwr gael ei wneud yn fethdalwr ac sy'n rhoi'r rhesymau pam.

Gorchymyn neu ymrwymiad cyfyngiadau methdaliad
Mae'r rhain yn weithredol o'r 1 Ebrill 2004. Mae'n bosibl y bydd methdalwr sydd wedi bod yn anonest neu sydd rywsut i'w feio am ei f/methdaliad yn cael gorchymyn llys yn ei h/erbyn neu'n ymrwymo i'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn golygu fod y cyfyngiadau methdalu yn parhau ar ôl rhyddhau am gyfnod o rhwng 2 a 15 mlynedd.

Arwystl
Budd sicrwydd wedi'i gaffael mewn eiddo gan gredydwr er mwyn gwarchod yn erbyn peidio â thalu dyled (megis morgais).

Gorchymyn talu
Gorchymyn gan y llys sy'n rhoi arwystl cyfreithiol i'r ymddiriedolwr ar fudd dyledwr yn ei g/chartref. Mae hyn yn parhau hyd yn oed ar ôl i'r dyledwr gael ei ryddhau o'r methdaliad.

Deddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986
Deddf Seneddol am anghymhwyso cyfarwyddwyr.

Datodiad gorfodol
Dirwyn cwmni i ben ar ôl deiseb i'r llys, gan gredydwr fel arfer.

Cyfrannol
Pob person sy'n rhwymedig i gyfrannu tuag at asedau cwmni os caiff ei ddirwyn i ben. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu cyfranddalwyr nad ydynt wedi talu'n llawn am eu cyfranddaliadau.

Credydwr
Rhywun y mae'r methdalwr neu'r cwmni mewn dyled ariannol iddo/i.

Dyledeb
Dogfen ysgrifenedig, dan sêl fel arfer, a gyhoeddir fel tystiolaeth o ddyled neu ganiatáu sicrwydd am fenthyciad o swm penodedig ar log (neu'r ddau). Defnyddir y term yn aml mewn perthynas â benthyciadau (gan fanciau fel arfer) wedi'u sicrhau gan daliadau, yn cynnwys taliadau arnawf, dros asedau cwmnïau.

Dyledwr
Person sydd mewn dyled ariannol.

Dyledion
Arian sy'n ddyledus gan ddyledwr.

Gweithred y Drefniadaeth
Trefniant (wedi'i reoli gan Ddeddf Gweithredoedd Trefniadaeth 1914) a gynigiwyd gan y dyledwr i dalu ei g/chredydwyr. Fe'i ddefnyddir weithiau yn lle trefniant gwirfoddol unigol, yn enwedig lle mae credydwyr eisoes yn cytuno i delerau'r trefniant a heb fod yn debygol o gymryd unrhyw gamau eraill i adennill eu dyled.

Cyfarwyddwr
Person sy'n rhedeg materion cwmni.

Rhyddhau
Proses sy'n rhyddhau methdalwr o gyfyngiadau methdaliad ac yn ei r/rhyddhau o'r rhan fwyaf o'i d/ddyledion methdaliad.

Cyfrif Gwasanaethau Ansolfedd (ISA)
Y cyfrif ym Manc Lloegr y mae arian sy'n cael ei wireddu o'r asedau mewn methdaliadau a datodiadau'n cael ei dalu.

Budd
Hawl, neu gyfran, mewn eiddo.

Derbynnydd dros dro
Gall y llys benodi'r DS i weithredu fel derbynnydd dros dro ar eiddo unigolyn (fel arfer i'w warchod a'i ddiogelu), ar ôl cyflwyno'r ddeiseb methdaliad ond cyn gwneud gorchymyn methdaliad.

Arwystl cyfreithiol
Ffurf ar sicrwydd (megis morgais) i sicrhau talu dyled.

Datodiad (dirwyn i ben)
Mae hwn yn berthnasol i gwmnïau a phartneriaethau. Mae'n golygu gwireddu a dosbarthu'r asedau ac fel arfer cau'r busnes i lawr. Mae tri math o ddatodiad - gorfodol, gwirfoddol credydwyr a gwirfoddol aelodau.

Datodwr
Y DS neu YA a benodwyd i weinyddu datodiad cwmni neu bartneriaeth.

System Cyfrifyddu Cyfriflyfr Swyddfa Lleol (LOLA)
Y system gyfrifiadurol cyfrifyddu ystâd a ddefnyddir gan dderbynyddion swyddogol i gofnodi trafodion ariannol ar ystadau sy'n cael eu gweinyddu ganddynt.

London Gazette
Cyhoeddiad swyddogol gan y Llywodraeth sy'n cynnwys hysbysiadau cyfreithiol.

Aelod (cwmni)
Person sydd wedi cytuno i fod, ac sydd wedi'i gofrestru, yn aelod , megis cyfranddaliwr cwmni cyfyngedig.

Enwebai
YA sy'n gwneud y gwaith paratoi ar gyfer trefniant gwirfoddol, cyn iddo gael ei weithredu.O'r 1 Ebrill 2004 gall yr AY fod yn enwebai mewn trefniadau gwirfoddol llwybr carlam.

Swyddog (cwmni)
Cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd cwmni.

Derbynnydd Swyddogol (OR)
Swyddog o'r llys a gwas sifil a gyflogir gan y Gwasanaeth Ansolfedd, sy'n delio gyda methdaliadau a datodiadau gorfodol cwmnïau.

Person
Unigolyn neu gorfforaeth.

Deiseb.
Cais ffurfiol a wneir i lys. (Gweler hefyd deiseb Methdaliad)

Credydwr blaenoriaethol
Credydwr mewn gweithrediadau methdalu sydd â hawl i dderbyn rhai taliadau cyn credydwyr ansicredig eraill. Mae'r credydwyr hyn yn cynnwys cynlluniau pensiwn galwedigaethol a gweithwyr cyflogedig.

Prawf o ddyled
Ffurflen statudol sy'n cael ei chwblhau gan credydwr mewn methdaliad neu ddatodiad gorfodol i nodi faint y mae'n ei hawlio. Caiff y ffurflen ei darparu gan yr ymddiriedolwr neu'r datodwr.

Datodwr dros dro
DS/AY a benodir i gadw asedau cwmni nes gwrandawiad y ddeiseb dirwyn i ben.

Dirprwy
Yn lle bod yn bresennol mewn cyfarfod, gall person benodi rhywun i fynd i bleidleisio yn ei l/lle - 'dirprwy'.

Ffurflen dirprwy
Ffurflen y mae'n rhaid ei llenwi os yw credydwr yn dymuno bod rhywun arall yn ei g/chynrychioli mewn cyfarfod credydwyr a phleidleisio ar ei r/rhan.

Archwiliad cyhoeddus
Pan fydd cwmni'n cael ei ddirwyn i ben neu mewn gweithdrefnau methdaliad, gall yr YA ar unrhyw bryd wneud cais i'r llys i holi cyfarwyddwr(wyr) y cwmni neu unrhyw berson arall sydd wedi cymryd rhan wrth hyrwyddo, ffurfio neu reoli'r cwmni neu'r methdalwr.

Gwireddu
Mae gwireddu ased yn golygu ei werthu neu ei waredu er mwyn codi arian; er enghraifft, gwerthu asedau methdalwr a chael yr elw.

Derbynnydd
Yr enw a ddefnyddir yn gyffredin am dderbynnydd gweinyddol. Fodd bynnag, gall 'derbynnydd' hefyd olygu person wedi'i benodi gan y llys gyda'r grym i dderbyn rhenti ac elw eiddo; nid oes rhaid i'r maeth hwn o derbynnydd fod yn ymarferwr ansolfedd.

Derbynnydd a rheolwr
Pan fydd gorchymyn methdaliad yn cael ei wneud, yr YA sy'n dod yn derbynnydd a rheolwr i amddiffyn ystâd y methdalwr. Mae hyn yn digwydd cyn i'r YA ddod yn ymddiriedolwr neu cyn i ymarferydd ansolfedd gael ei benodi yn ei l/lle.

Derbynyddiad
Yn aml, dywedir fod cwmni mewn derbynyddiad gweinyddol 'yn nwylo'r derbynnydd'.

Diddymiad
Gweithdrefn sy'n canslo gorchymyn dirwyn i ben.

Rhyddhau
Y broses o ryddhau'r DS/YA o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r swydd o fod yn ymddiriedolwr/datodwr neu weinyddwr.

Ysgrifennydd Gwladol
Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Masnach a Diwydiant.

Credydwr sicredig
Credydwr sy'n dal sicrwydd, megis morgais, dros asedau person am arian sy'n ddyledus.

Cyfarwyddwr cysgodol.
Person sydd, heb gael ei benodi'n ffurfiol, yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch pa gyfarwyddwyr cwmni sy'n gyfarwydd â gweithredu.

Datganiad materion busnes
Dogfen wedi'i thyngu ar lw, wedi'i chwblhau gan fethdalwr, swyddog neu gyfarwyddwr(wyr) cwmni, yn datgan yr asedau ac yn rhoi manylion y dyledion a'r credydwyr.

Arolygydd
YA wedi'i benodi i arolygu cynnal trefniant gwirfoddol unigol neu gwmni. O'r 1 Ebrill 2004 gall yr YA weithredu fel arolygydd mewn trefniadau gwirfoddol llwybr carlam.

Ymddiriedolwr
Yr DS neu YA sy'n cymryd rheolaeth dros yr asedau yw'r ymddiriedolwr mewn methdaliad. Prif ddyletswyddau'r ymddiriedolwr yw gwerthu'r asedau hynny a rhannu'r arian rhwng y credydwyr.

UNCITRAL
Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith Masnach Rhyngwladol.

Credydwr ansicredig.
Credydwr nad yw'n dal sicrwydd (megis morgais) am arian sy'n ddyledus. Gall rhai credydwyr ansicredig hefyd fod yn gredydwyr blaenoriaethol.

Trefniant gwirfoddol
Gweithdrefn sy'n caniatáu i unigolyn neu gwmni ddod i gytundeb sy'n rhwymo gyda chredydwyr am dalu'r cyfan, neu ran, o'u dyledion dros gyfnod o amser. O'r 1 Ebrill 2004 bydd gweithdrefn newydd yn caniatáu i fethdalwyr gynnig trefniant gwirfoddol gyda'r DS yn arolygydd.

Datodiad gwirfoddol
Dull o ddatodiad nad yw'n cynnwys y llysoedd neu'r DS. Ceir 2 fath o ddatodiad gwirfoddol - datodiad gwirfoddol aelodau i gwmnïau diddyled a datodiad gwirfoddol credydwyr i gwmnïau ansolfent.

Gorchymyn dirwyn i ben
Gorchymyn llys yn seiliedig fel arfer ar ddeiseb credydwr, i ddirwyn i ben neu ddatod cwmni neu bartneriaeth yn orfodol.

© Hawlfraint y Goron 2007.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hawlfraint y Goron yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn dull diraddiol neu mewn cyd-destun camarweiniol. Lle mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi neu ei roi i eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a statws yr hawlfraint. Pe byddai cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw ddefnydd arfaethedig arall o'r deunydd yn amodol ar gymeradwyaeth Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid cyflwyno ceisiadau i: HMSO's Licensing and Information Policy Team, The Office of Public Sector Information, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Ffôn: 01693 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y llyfryn hwn sy'n cael ei gydnabod fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen awdurdodiad i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Am ragor o fanylion ar drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler y canllawiau cyfredol ar http://www.opsi.gov.uk/advice/crown-copyright/copyright-guidance/index.htm a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer HMSO.

Gallwch gael copïau ychwanegol o'r llyfryn hwn o'r wefan isod:
http://www.dti.gov.uk/publications

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau dros y ffôn drwy ffonio'r Llinell Archebu Cyhoeddiadau ar 0845 015 0010 (codir y gyfradd genedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn). Gallwch hefyd ffacsio archebion i'r Llinell Archebu ar 0845 015 0020. Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030.

Mae cyhoeddiadau ar gael hefyd ar ein gwefan www.insolvency.gov.uk

URN 07-934